# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol ~ Weekly Newsletter

**06.03.26**




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's Greeting

Cynhaliwyd **Eisteddfod Rhanbarthol Dawns yr Urdd** yr wythnos hon gyda'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau grŵp ac unigol Dawnsio Stryd/Hip Hop. Rydym yn hynod falch o berfformiadau arbennig pawb - llongyfarchiadau mawr! Diolch gwresog i Miss Thomas am baratoi'r plant mor wych unwaith eto. Llongyfarchiadau arbennig i Heti am ddod yn gyntaf yn y **ddawns unigol**. Pob lwc yn y Genedlaethol!

Heddiw, cawsom gyfle i gymryd rhan mewn **Dathliad Gŵyl Dewi** yn Neuadd Bentref Ffynnon Taf. Hyfryd iawn oedd gallu bod yn rhan o'r dathliad gymunedol hwn. Eto, llongyfarchiadau mawr i'r rhai a bu'n perfformio. Yfory, bydd nifer o'n plant yn cynrychioli'r ysgol wrth gystadlu mewn amryw gystadlaethau unigol a grŵp yn **Eisteddfod Gylch yr Urdd**. Pob hwyl i bawb sydd yn cystadlu - byddwch wych!

Mae'r plant yn sicr wedi mwynhau dathliadau **Diwrnod y Llyfr** eleni. Roedd gweld y plant yn chwtsio mewn i fwynhau rhannu llyfrau gyda'i ffrindiau yn hyfryd ac yn ystyrlon. Mae'r plant yn sicr wedi'u sbarduno i ddarllen yn y dyfodol.

Wythnos nesa, byddwn yn cynnal **Nosweithiau Rhieni**. Disgwyliwn i bob teulu ddod i'r cyfarfodydd, felly cofiwch drefnu apwyntiad os nad ydych wedi gwneud yn barod. Diolch i bawb sydd wedi trefnu. Ni fydd clybiau Chwaraeon na Chelfyddydau wythnos nesa. Hefyd wythnos nesa, bydd cwmni Colorfoto yn yr ysgol er mwyn tynnu **lluniau dosbarth**. Gofynnwn i bawb ddod yn eu gwisg ysgol swyddogol.

●☆●☆●☆●☆●☆●☆

The **Urdd Regional Dance Eisteddfod** was held this week with the school competing in group and individual Street Dancing/Hip Hop competitions. We are extremely proud of every performance - llongyfarchiadau! A heartfelt thank you to Miss Thomas for preparing the children so well once again. Special congratulations to Heti for winning first place in the **solo dance**. Good luck in the Genedlaethol!

Today, we had the opportunity to take part in a **St David's Day celebration** at Taffs Well Village Hall. We very much welcomed being part of this community celebration. Well done to all who took part. Tomorrow, many of our children will be representing the school in various individual and group competitions at the **Urdd Cylch Eisteddfod**. Good luck to all who are competing – shine brightly!

The children certainly enjoyed this year's **World Book Day** celebrations. Seeing the kids snuggle in to enjoy sharing books with their friends was lovely and felt meaningful. The children are certainly motivated to read in the future.

Next week, we'll be hosting **parents' evengins**. We expect all families to attend to the meetings – please remember to call the office to book your appointments if you haven't yet done so. Thank you to all who have. There will be no Sports or Arts clubs next week. Also next week, Colorfoto will be at the school to take **class photos**. We ask everyone to come in their official school uniform.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Sadwrn / Saturday 07.03.26**
Eisteddfod yr Urdd (Cylch)
@ Ysgol Plasmawr

**Mawrth / Tuesday 10.03.26**
**Mercher / Weds 11.03.26**
Nosweithiau Rhieni
*Parents' Evenings*
**DS: Dim clybiau 11 & 12.3.26**
**NB: No clubs 11 & 12.3.26**

**Iau / Thursday 12.03.26**
Colorfoto
(Dosbarthiadau / *Classes*)

**Gwener / Friday 13.03.26**
Gwasanaeth Dosbarth 2C
*2C Class Assembly*

**Sadwrn / Saturday 21.03.26**
Eisteddfod yr Urdd
(Rhanbarth / Regional)

**23.03 & 27.04 & 11.05**
Cook Stars (See below)
1.30 – 3.30pm

**20.04,26 - 22.04.26**
Cwrs Preswyl Maes y Fron
Blwyddyn 5
*Year 5 Residential Course*
(Call of the Wild)

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*




Llongyfarchiadau bawb!

Congratulations all!





Llongyfarchiadau Dosbarth 4C am eich gwaith datrys problemau gyda Bumbles of Honeywood!

Congratulations Dosbarth 4C for your problem-solving work with Bumbles of Honeywood!


www.cookstars.co.uk
@cookstarscardiffnorthandwest
HAPPY HEALTHY COOK STARS
A healthy eating cookery enrichment programme
Everything included!
• all ingredients
• all kit and equipment
• an apron
• a recipe card to take home
• and a fun educational game!
Ysgol Gwaelod y Garth
FREE PARENT & CHILD COOKING SESSIONS!
Monday 23rd March
Monday 27th April
Monday 11th May
1.30pm - 3.30pm
Attendance is required at all 3 sessions
BOOKING IS ESSENTIAL!
Book your place NOW:
Email or call the school office -
ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk / 029 2081 0489
Cook stars
happy and healthy


DIWRNOD LLUNIAU
PHOTO DAY
Ysgol Gynradd
Gwaelod y Garth
Primary School
Dydd Iau 12 Mawrth
Thursday 12th March
colorfoto



# Dathlu Gŵyl Dewi yn Ffynnon Taf

## Celebrating St David's Day in Ffynnon Taf
















# Financial Wellbeing Service

For unpaid carers, caring for someone living in Cardiff & the Vale of Glamorgan.

## Direct Grants – March 2026

**Applications will open on 03/03/2026 at 7am**

Grants are available for unpaid carers, **caring for someone living in Cardiff or the Vale of Glamorgan**. These grants are a **hardship fund** for:

- **Supermarket vouchers**
- **Household Items**
- **Technology**

These can be used in a range of stores including, Argos, Asda, Currys, Iceland and Tesco

## To apply

Scan the QR code **for your area** and complete the application form. You will need to provide a **professional** who can verify your caring role.

For more **information** or **support** to complete the application please contact:

**Financialwellbeingservice@tuvida.org**

**Cardiff Unpaid Carers Only!**

**VOG Unpaid Carers Only!**

Tŷ Vida Supporting your life

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU | CARERS TRUST WALES

Ariennir gan Lywodraeth Cymru | Funded by Welsh Government

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Mawrth 13
Mawrth 27

**Croeso i aelodau newydd bob amser!**

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

March 13
March 27

***New members always welcome!***







## Clybiau ar ôl ysgol

Bydd staff yn cynnig y clybiau canlynol ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Diolch i'r staff i gyd am wirfoddoli.

Dydd Mercher –Celfyddydau Mynegiannol
Dydd Iau – Clwb Chwaraeon

**Clwb cynta'r tymor – 14.01.26**
**Clwb ola'r tymor – 19.03.26**

DS: Ni fydd clybiau ar 10.03.26 nac 11.03.26 oherwydd Nosweithiau Rhieni

## After school clubs

Staff offer the following after school clubs to pupils in Years 3-6. Thank you to all the staff who volunteer.

Wednesday – Expressive Arts
Thursday – Sports Club

**First club of the term – 14.01.26**
**Final club of the term – 19.03.26**

NB: There will be no clubs on 10.03.26 or 11.03.26 due to Parents' Evenings

## Hawl y Mis - Mis Mawrth

## Right of the Month - March







### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.


Cyrsiau Beicio Gwyliau Ysgol
Dysgu sut i Reidio
+
Lefel 1+2 Ar y Ffordd
I archebu lle, ewch i: link.wales/yc


School Holiday Cycling Courses
Learn to Ride
+
Level 1+2 On the Road
To book a place, go to: link.wales/yc


YSGOL GYNRADD TONGWYNLAIS
CLWB GWYLIAU'R PASG
CLWB GWYLIAU AML-CHWARAEON
Gan gynnwys hela wyau Pasg, celf a chrefft Pasg yn ogystal â'n holl gemau a gweithgareddau super hwyl arferol
COFESTRU CYFLYM
Dyddiadau - 30 Mawrth - 2 Ebrill
7th 7 Ebrill - 10 Ebrill
Amserau 9am - 3.30pm (8am - 4.30pm ar gael)
Cost - o £24.68 y dydd
FUTURE STARS COACHING
Arolygiaeth Gofal Cymru Care Inspectorate Wales
ARCHEBU AR-LEIN FUTURESTARSCOACHING.CO.UK


TONGWYNLAIS PRIMARY
EASTER HOLIDAY CLUB
MULTI-SPORT & ACTIVITIES
30th March - 2nd APRIL &
7th April - 10th April
9am until 3.30pm (8am - 4.30pm available)
From £24.68
FUTURE STARS COACHING
Arolygiaeth Gofal Cymru Care Inspectorate Wales
BOOK ONLINE WWW.FUTURESTARSCOACHING.CO.UK




Diolch i bwyllgor Dinasyddion y Dyfodol am baratoi'r wybodaeth yma – dilynwch y QR i weld!

Casgliad Nesaf:

Dydd Gwener 27.03.26

Diolch to our Citizens of the Future Committee who have prepared this for us – follow the QR to see!

Next Collection:

Friday 27.03.26




Cymro
Cymraes


Cymro
Cymraes




Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
Gwaelod y Garth Primary School


Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
Gwaelod y Garth Primary School